# MORRIS, JOHN EDWARD (1859 - 1933), athro ysgol a hanesydd

**Enw:** John Edward Morris
**Dyddiad geni:** 1859
**Dyddiad marw:** 1933
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** athro ysgol a hanesydd
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Rugby, graddiodd yn 1882 o Goleg Magdalen, Rhydychen (D.Litt. 1905), bu'n athro hyd 1923 yn y Bedford Grammar School, a bu farw 8 Tachwedd 1933. Nid oedd yn Gymro, ond rhoddir ei le iddo yma ar bwys ei brif waith, *The Welsh Wars of Edward I*, 1901, sy'n adrodd hanes rhyfeloedd Llywelyn ap Gruffudd â'r brenin, a'r brwydro pellach yng Nghymru hyd 1295, gyda rhagdraeth ar y rhyfeloedd rhwng y Normaniaid a'r Cymry cyn oes Llywelyn. Delia'r gwaith nid yn unig â'r brwydro ond hefyd â'r dulliau o gasglu milwyr, y cyllid, y cad-ddarpar, etc.; a seiliwyd ef nid ar groniclau ond ar ddogfennau a chyfrifon swyddogol. Serch i Morris (gweler *E.H.R.*, xxxix a xlvi) gamleoli brwydr olaf Madog ap Llywelyn, erys gwerth ei lyfr.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

*History*, 1933-4, 344-5

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 69075858

Wikidata: Q20733392

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu